

Hysbysiad i Ganolfannau Cymwysterau CBAC TGAU, UG a Safon Uwch a Gymeradwywyd Rheolaethau Aseidiadau Di-arholiad 2021

Yn ei [datganiad](#) ar 20 Ionawr cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y gall canolfannau lacio'r rheolaethau sy'n arferol ar gyfer sefyll Aseidiadau Di-arholiad. Bwriad y ddogfen hon yw rhoi cyngor i athrawon ar sut y gall dysgwyr weithio ar neu gwblhau aseidiadau di-arholiad gartref, os yw'r ganolfan yn penderfynu ei bod yn saff ac yn ymarferol gwneud hynny. **Nid** oes gofyn i ganolfannau ofyn caniatâd gan CBAC na'i hysbysu pan fyddant yn rhoi'r trefniadau ar waith.

1. Gweithio ar Aseidiadau Di-arholiad gartref

Gall athrawon ganiatáu i ddysgwyr sy'n cofrestru am gymwysterau yn 2021 gyflawni gwaith ysgrifenedig, ymarferol, perfformiad a llafar gartref, hyd yn oed pan fydd y fanyleb yn nodi y dylid gwneud y gwaith hwnnw yn y ganolfan.

Os yw athrawon yn caniatáu i ddysgwyr gwblhau gwaith ysgrifenedig neu ymarferol gartref, mae'n bwysig bod athrawon yn gallu dilysu gwaith dysgwyr o hyd. Felly, rhaid i athrawon atgoffa dysgwyr mai **eu gwaith nhw eu hunain yn unig** y dylai unrhyw waith fod. **Rhaid** cydnabod unrhyw achlysur lle derbyniodd dysgwr gymorth, fel y gall canolfannau ddyfarnu graddau sy'n gywir a theg.

Os yw athrawon yn amheus ynghylch unrhyw waith sy'n digwydd ac yn cael ei gwblhau gartref, dylent fynegi'r pryderon hynny wrth y dysgwr a rhoi cyfle arall i'r dysgwr hwnnw gwblhau'r gwaith.

Cynghorwn eich bod yn gwirio'n rheolaidd. Gellid gwneud hyn fel a ganlyn:

- cynnal sesiwn Holi ac Ateb â'r dysgwr
- fideo-gynadledda ar-lein i arsylwi'r gwaith a thrafod unrhyw gynnydd â'r dysgwr
- cymharu perfformiad y dysgwr gartref â gwaith a gwblhawyd yn yr ystafell ddosbarth
- gosod terfynau amser penodol i ddechrau a gorffen y gwaith, a chadw cofnodion o ba bryd y cynhyrchwyd y gwaith
- atgoffa dysgwyr o risg cael cymorth gartref gan aelodau'r teulu a allai gael ei ystyried yn ormod o gymorth.

2. Cyngor i athrawon lle mae dysgwyr yn cwblhau tasgau perfformiad/llafar gartref neu'r tu allan i'r ganolfan

Yr egwyddor sy'n berthnasol o hyd yw bod yn rhaid i'r athro allu asesu'r perfformiad neu'r llafar mor fanwl gywir ag arfer a gallu dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun. Edrych ar lif byw o'r perfformiad neu'r aseiad llafar fyddai'r ffordd orau o wneud hyn gyda goruchwyliaeth o bell. Ond, nid yw hyn bob amser yn bosibl ac efallai y bydd tystiolaeth arall yn ddigon i ganiatáu i'r athro asesu a dilysu. Gan ddibynnu ar y pwnc, gallai hyn gynnwys un neu fwy o'r canlynol fel y bo'n briodol i'r pwnc:

- recordiad fideo o'r holl berfformiad neu ran ohono
- recordiad sain o berfformiad
- tystiolaeth ffotograffig ac ysgrifenedig
- trafodaeth â'r dysgwr.

3. Asesiadau diogelwch a risg

Ni all CBAC ddarparu cyngor iechyd a diogelwch. Cynghorir canolfannau i ddilyn eu hasesiad risg a pholisi diogelu eu hunain wrth ganiatáu i ddysgwyr gwblhau gwaith ymarferol gartref. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer unrhyw bwnc sydd fel arfer yn defnyddio cyfarpar a chyfleusterau arbenigol.

Er enghraifft:

- dylid ystyried p'un a oes gan ddysgwyr fynediad diogel at adnoddau
- o ran gwaith ymarferol, a oes modd cofnodi hwn yn ddiogel, ac a fydd y dysgwr yn gallu cynhyrchu'r gwaith i'r safon ddigonol
- p'un a oes angen defnyddio cyfarpar ar gyfer y dasg a fyddai fel arfer yn gofyn am oruchwyliaeth yn y ganolfan
- p'un a oes rhan benodol o dasg y gellid ei chyflawni'n ddiogel gartref
- mae ardal neu amgylchedd yn y cartref sy'n ddigon tawel i'r dysgwr allu cwblhau'r gwaith yno.